



Social Media Marketing for Small Businesses

Wyddoch chi fod pobl ar gyfartaledd yn treulio bron i ddwy awr a hanner y dydd ar gyfryngau cymdeithasol? Mae hynny'n golygu bod modd i fusnesau fanteisio ar gyfle gwerth chweil i gysylltu gyda chwsmeriaid posibl!

Yn ôl yn 2021, pan roedd fy nghytundeb gwaith yn dod i ben, fe wnes i benderfynu fy mod yn awyddus i roi fy arbenigedd cyfryngau cymdeithasol ar waith er mwyn cefnogi busnesau bach. Gan hynny, fe wnes i fwrw iddi i sefydlu Ace of Media ac

rydw i bellach yn gweithio gyda busnesau bach ledled y DU gan eu helpu i rannu eu hangerdd gyda gweddill y byd. Mae'n bosibl eich bod chi wedi gweld rhywfaint o fy ngwaith eisoes oherwydd bu imi helpu AJ Physio i sefydlu eu tudalen Facebook yn 2022.

Gallaf naill ai gynnig cymorth parhaus lle byddaf yn cydweithio gyda pherchennog y busnes i greu cynnwys o safon yn gyson neu gymorth tymor byr lle bydd angen fy arbenigedd i ar y perchnogion busnes i fynd i'r afael â'r dasg maen nhw'n ceisio'i osgoi ar eu rhestr tasgau. Yn ddiweddar, bu imi sefydlu grŵp aelodaeth i gynnig cyngor parhaus ar ffurf grŵp. Byddaf yn cynnal her arbennig yn y grŵp hwnnw ym mis Ionawr, sy'n canolbwyntio ar y gwaith cefndirol sydd ynghlwm â marchnata ar y cyfryngau cymdeithasol. At hynny, byddaf yn gofyn i fy aelodau fynd ati i gyflawni tasg fer pob diwrnod. Y nod ydy eu cefnogi fel nad ydyn nhw'n teimlo wedi'u llethu a sicrhau bod eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn gyfredol ac yn barod i ffynnu yn 2024.

Os hoffech chi wybod mwy am sut gallaf helpu eich busnes, gallwch ddod o hyd imi ar Facebook o dan 'Ace of Media.'

Tesni Kendell

tesnihafkendell@gmail.com

www.aceofmedia.co.uk

